

Hysbysiad Preifatrwydd Dewis Fferyllfa

IGDC • DHCW



Mae gwasanaethau eich Fferyllfa a ddarperir o dan y Gwasanaeth Dewis Fferyllfa wedi ymrwymo i'r safonau preifatrwydd uchaf. Yn ystod eich ymgynghoriad Dewis Fferyllfa gyda'r gweithiwr fferyllol proffesiynol, dim ond data sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu gwasanaeth Dewis Fferyllfa fydd y Fferyllfa yn ei gasglu.

Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cynnwys Fferylllydd cofrestredig, technegydd Fferyllfa cofrestredig a Fferylllydd dan hyfforddiant.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth fanwl ynghylch pam rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol fel rhan o'r gwasanaeth hwn, sut rydym yn ei defnyddio, a'r amodau cyfyngedig lle gallwn ei datgelu i eraill. Mae gwybodaeth bersonol amdanoch chi sy'n cael ei phrosesu yn cael ei llywodraethu gan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Beth yw Dewis Fferyllfa?

Mae'r rhan fwyaf o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru yn cynnig nifer o wasanaethau fferylliaeth cyfrinachol y GIG fel darparu meddyginiaeth frys, atal cenhedlu brys a thrin anhwylderau cyffredin. Efallai y bydd rhai fferyllfeydd hefyd yn gallu rhagnodi meddyginiaeth a rhoi brechlyn ffliw tymhorol i chi. Cyfeirir at y gwasanaethau hyn gyda'i gilydd fel Dewis Fferyllfa.

Mae Dewis Fferyllfa yn gymhwysiad electronig cyfrinachol y GIG a ddefnyddir gan weithwyr fferyllol cymunedol proffesiynol i gofnodi manylion gwasanaethau'r GIG y maent yn eu darparu i chi.

Nod y gwasanaeth Dewis Fferyllfa yw darparu ymgynghoriadau a chynghor ar gyflyrau cyffredin yn lleol yn hytrach na gorfod mynd i Feddygfa.

Y gwasanaethau a gwmpesir gan y cymhwysiad Dewis Fferyllfa:
Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin, gan gynnwys:

- Profi a Thrin Dolur Gwddf (STTT)
- Haint y Llwybr Wrinol (UTI)

Adolygiadau o Feddyginiaethau wrth Ryddhau

Gwasanaeth Atal Cenhedlu

Cyflenwad Meddyginiaethau Brys

Gwasanaeth Rhagnodwyr Annibynnol

Gwasanaeth Brechlyn Ffliw Tymhorol

Sylwch na fydd pob fferyllfa yn darparu'r holl wasanaethau, a dylech gysylltu â'ch fferyllfa leol i gadarnhau'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

Rheolydd Data

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) yn gyfrifol am ddarparu a rheoli'r rhaglen Dewis Fferyllfa ac yn gweithredu fel rheolydd data ar y cyd â'ch darparwr Fferyllfa ar gyfer rheoli a phrosesu gwybodaeth o fewn y rhaglen Dewis Fferyllfa.



Pam ydych chi'n prosesu fy ngwybodaeth bersonol/beth yw'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu?

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu i alluogi darparu'r gwasanaeth Dewis Fferyllfa ac i ddarparu gofal a thriniaeth i chi.

Rydyn ni'n dibynnu ar y sail gyfreithlon ganlynol wrth brosesu eich gwybodaeth bersonol ar gyfer y gwasanaeth Dewis Fferyllfa:

- Mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer tasg sydd o fewn ein cylch gwaith fel awdurdod cyhoeddus Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU

Gan fod y wybodaeth rydyn ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn ddata iechyd, fe'i dosberthir fel data "categori arbennig", felly mae angen sail gyfreithlon ychwanegol yr ydym wedi'i nodi fel:

- Mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion darparu gofal neu driniaeth iechyd neu gymdeithasol, neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol ar sail cyfraith ddomestig Erthygl 9(2)(h) GDPR y DU

Y mathau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu

Gwybodaeth adnabyddadwy claf, gan gynnwys eich enw, cyfeiriad, rhif GIG, dyddiad geni, manylion cyswllt (cyfeiriad a rhif ffôn) a manylion am y symptomau rydych chi'n eu dioddef. Os yw'n briodol, gwybodaeth am feddyginiaethau a ddarparwyd i chi, neu resymau pam fod angen i chi gael eich atgyfeirio at eich meddyg teulu neu wasanaethau GIG eraill.

Sut rydyn ni'n cael gafael ar eich data personol

Mae eich data personol yn tarddu o wybodaeth a ddarperir gennych yn ystod yr ymgynghoriad Dewis Fferyllfa. Manylion personol fel eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni a rhif GIG.

Gellir hefyd cael mynediad at eich data personol a gedwir gan eich practis meddyg teulu trwy eich Cofnod Meddyg Teulu Cymru neu, os yw eich ymgynghoriad yn ymwneud ag adolygiad meddyginiaeth rhyddhau, eich llythyr cyngor rhyddhau electronig diweddaraf o'r ysbyty lle cawsoch ofal.

Sut rydyn ni'n prosesu eich data

Bydd y fferyllfa yn cadw cofnod o unrhyw driniaeth a gofal y maent yn eu darparu i chi. Cedwir y wybodaeth hon yn y cymhwysiad cyfrinachol Dewis Fferyllfa. Bydd y cofnod hwn yn cynnwys manylion unrhyw feddyginiaeth a ddarparwyd, unrhyw gyngor a roddwyd, ac unrhyw atgyfeiriadau a wnaed. Dim ond i'r gweithwyr fferyllol proffesiynol yn y fferyllfa yr ydych wedi'u henwebu i ddarparu'r driniaeth bryd hynny y mae ar gael.

Os byddwch yn defnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol, bydd manylion ymgynghoriadau blaenorol ar gael i'r gweithiwr fferyllol proffesiynol yn eich fferyllfa ddewisol.

Os ydych wedi newid fferyllfa, yna bydd manylion eich ymgynghoriadau blaenorol ar gael yn eich fferyllfa newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod gan eich fferyllfa newydd yr wybodaeth gywir amdanoch a bydd yn gallu darparu gwasanaeth mwy diogel. Ni fydd y fferyllfa flaenorol bellach yn gallu gweld eich cofnod claf.

Rhannu eich data

Mae'n bosibl y caiff eich data personol ei rannu â'r canlynol:

- Eich practis meddyg teulu i'w helpu i ddarparu gofal i chi
- Sefydliad gofal iechyd arall y gallwn eich cyfeirio ato am ofal a thriniaeth bellach
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC), at ddibenion gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac i wirio bod y gwasanaeth wedi'i ddarparu gan y fferyllfa fel rhan o brosesau dilysu taliadau

Yn ogystal â'r dibenion uchod, mae angen i ni fonitro a dadansoddi i gefnogi'r

gwaith o reoli'r gwasanaethau Dewis Fferyllfa amrywiol. Defnyddir data ar gyfer cynllunio, comisiynu a gwerthuso gwasanaethau. Mae'r data a ddefnyddiwn at y dibenion hyn yn ddiennw i sicrhau nad yw cleifion unigol yn adnabyddadwy.

Am ba mor hir y byddwn yn cadw'ch data personol?

Byddwn yn cadw eich data personol am gyhyd ag y bo angen at y dibenion a amlinellir uchod yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Cofnodion Cymru.

Fel arfer bydd y cofnod hwn yn cael ei gadw yn y fferyllfa am gyfnod o wyth mlynedd ar ôl diwedd y driniaeth i oedolion; ar gyfer plant a phobl ifanc, bydd y cofnod yn cael ei gadw tan ben-blwydd y claf yn 25 neu 26 os oedd y person ifanc yn 17 oed ar ddiwedd y driniaeth neu wyth mlynedd ar ôl eu marwolaeth.

Eich hawliau

Mae gennych yr hawl i gael cadarnhad bod eich data yn cael ei brosesu, ac i gael mynediad at eich data personol

- Mae gennych yr hawl i gael data personol wedi'i gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn
- Mae gennych yr hawl i gael data personol wedi'i ddileu ac i atal prosesu, o dan amgylchiadau penodol
- Mae gennych yr hawl i atal prosesu data personol, o dan amgylchiadau penodol
- Mae gennych yr hawl i gludadwyedd data, o dan amgylchiadau penodol
- Mae gennych yr hawl i wrthwynebu'r prosesu, o dan amgylchiadau penodol
- Mae gennych hawliau mewn perthynas â phroffilio a phenderfyniadau a wneir yn awtomatig

Sut alla i gwyno os nad ydw i'n hapus?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'ch fferyllfa yn y lle cyntaf.

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data IGDC fel a ganlyn:

Swyddog Diogelu Data

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Tŷ Glan-yr-Afon

21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen

Caerdydd

CF11 9AD

DHCW.InformationGovernance@wales.nhs.uk

Os na ellir datrys eich pryderon, mae gennych hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House

Water Lane,

Wilmslow, SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

Ffon: 0303 123 1113

E-bost: wales@ico.org.uk

Dewis Fferyllfa Choose Pharmacy

IGDC • DHCW

dhcw.nhs.wales



Choose Pharmacy Privacy Notice

IGDC • DHCW



Your Pharmacy services provided under the Choose Pharmacy Service are committed to the highest privacy standards. During your Choose Pharmacy consultation with the pharmacy professional, the Pharmacy will only collect data that is necessary for the delivery of the Choose Pharmacy service.

A Pharmacy professional includes a registered Pharmacist, registered Pharmacy technician and trainee Pharmacist.

This privacy notice provides detailed information on why we collect your personal information as part of this service, how we use it and limited conditions under which we may disclose it to others. Personal information that is processed about you is governed by the Data Protection Act 2018 and the General Data Protection Regulation (GDPR).

What is Choose Pharmacy?

Most community pharmacies in Wales offer several confidential NHS pharmacy services such as provision of emergency medication, emergency contraception and treatment of common ailments. Some pharmacies may also be able to prescribe medication and give you a seasonal flu vaccine. These services are collectively referred to as Choose Pharmacy.

Choose Pharmacy is a confidential NHS electronic application, which community pharmacy professionals use to record details of NHS services they provide to you.

The aim of the Choose Pharmacy service is to provide consultations and advice for common conditions, locally rather than having to attend a GP Surgery.

The services covered by the Choose Pharmacy application:

Common Ailments Service including:

- Sore Throat Test and Treat (STTT)
- Urinary Tract Infection (UTI)

Discharge Medicines Review

Contraception Service

Emergency Medicines Supply

Independent Prescribers Service

Seasonal Flu Vaccine Service

Please note that not all pharmacies will provide all services, and you should contact your local pharmacy to confirm the services they offer.

Data Controller

Digital Health and Care Wales (DHCW) are responsible for provision and management of the Choose Pharmacy application and act as a joint data controller with your Pharmacy provider for the management and processing of information within the Choose Pharmacy application.



Why are you processing my personal information/ Lawful basis for processing?

Your personal information will be processed to enable the provision of the Choose Pharmacy service and to provide you with care and treatment.

We rely on the following lawful basis when processing your personal information for the Choose Pharmacy service:

- The processing is necessary for a task that is within our remit as a public authority UK GDPR Article 6(1)(e)

As the information we process about you constitutes health data it is

classified as “special category” data, therefore a further lawful basis is required which we have identified as:

- The processing is necessary for the purposes of the provision of health or social care or treatment or the management of health or social care systems and services on the basis of domestic law UK GDPR Article 9(2)(h)

Types of Personal Data we Process

Patient identifiable information including your name, address, NHS number, date of birth, contact details (address & telephone number) and details about the symptoms you are suffering. If appropriate, information about medicines you have been supplied, or reasons why you require onward referral to your GP or other NHS services.

How we obtain your personal data

Your personal data originates from information that you provide during the Choose Pharmacy consultation. Personal details such as your name, address and date of birth and NHS number.

Your personal data held by your GP practice may also be accessed via your Welsh GP record or where your consultation relates to a discharge medication review of your latest electronic discharge advice letter from the hospital that you received care from.

How we process your data

The pharmacy will keep a record of any treatment and care they provide to you. This information is held in the confidential Choose Pharmacy application. This record will contain details of any medication supplied, any advice given, and any referrals made.

It is only available to the pharmacy professionals within the pharmacy you have nominated to provide the treatment at that time.

If you access the service in the future, details of previous consultations will be available to the pharmacy professional in your chosen pharmacy.

If you have changed pharmacy, then details of previous consultations will be available to your new pharmacy. This will ensure your new pharmacy has accurate information about you and can deliver a safer service. The previous pharmacy will no longer be able to access your patient record.

Sharing your Data

Your personal data may be shared with the following:

- Your GP Practice to help them provide care to you
- Other health care organisation who we may refer you to for further care and treatment.
- NHS Wales Shared Services Partnership (NWSSP) , for the purposes of administering health and social care services and to verify the service has been delivered by the pharmacy as part of payment verification processes

In addition to the purposes described above, we need to undertake monitoring and analysis to support management of the various Choose Pharmacy services. Data will be used for planning, commissioning and service evaluation. The data we use for these purposes is anonymised to ensure that individual patients are not identifiable.

How long we keep your personal data for?

We will retain your personal data for as long as is necessary for the purposes outlined above in accordance with the Wales Records Management Code of Practice

Normally this record will be retained in the pharmacy for a period of eight years after the conclusion of treatment for adults; for children and young people, the record will be kept until the patient's 25th birthday or 26th if the young person was 17 at the conclusion of treatment or eight years after death.

Your Rights

You have the right to obtain confirmation that your data is being processed, and access to your personal data

- You are entitled to have personal data rectified if it is inaccurate or incomplete
- You have a right to have personal data erased and to prevent processing, in specific circumstances
- You have the right to 'block' or suppress processing of personal data, in specific circumstances
- You have the right to data portability, in specific circumstances
- You have the right to object to the processing, in specific circumstances
- You have rights in relation to automated decision making and profiling

How do I complain if I am not happy?

If you have any questions or concerns regarding how we use your personal information, please contact your pharmacy in the first instance.

DHCW's Data Protection Officer can be contacted as follows:

Data Protection Officer

Digital Health and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon

21 Cowbridge Road East

Cardiff

CF11 9AD

DHCW.InformationGovernance@wales.nhs.uk

If your concerns cannot be resolved, you have the right to lodge a complaint with the Information Commissioner's Office:

Information Commissioner's Office

Wycliffe House

Water Lane,

Wilmslow SK9 5AF

Website: www.ico.org.uk

Tel: 0303 123 1113

Email: wales@ico.org.uk

Dewis Fferyllfa Choose Pharmacy

IGDC • DHCW

dhcw.nhs.wales

